UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Cynigion ar gyfer Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

Ebrill 2014

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

## Cynigion ar gyfer Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar Fil Addysg a Chynhwysiant Ariannol.

Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

1. **Beth yw eich barn am wneud addysg ariannol yn rhan statudol o'r cwricwlwm (o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen), yn debyg i addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ac addysg gysylltiedig â gwaith?**

   Cytunwn mai gwneud addysg ariannol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol fyddai'r ffordd orau ymlaen, yn hytrach nag yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol – yn yr un ffordd ag ABCh. Gall hyn rhoi fwy o hyblygrwydd, ac osgoi gorlwytho'r cwricwlwm a'r amserlen ysgol.

   Yn ogystal, cytunwn mai o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen fyddai fwyaf priodol – rydym yn argyhoeddedig bod modd dysgu gwersi pwysig i ddysgwyr o'r oedran hwn ymlaen ynghylch materion ariannol, gan sicrhau bod yr addysg yn cydweddu â'r oedran dan sylw.

   Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cyfeirio at yr Adolygiad o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu sydd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, dan ofal Yr Athro Graham Donaldson. Teimla UCAC ei bod hi o'r pwys mwyaf bod y cynigion hyn ynghylch addysg ariannol yn cael sylw yn yr adolygiad hwnnw, er mwyn iddynt gael eu hystyried mewn modd cyfannol o fewn y cyd-destun priodol ehangach. Byddai gwneud hynny'n sicrhau na chaiff y cwricwlwm ei orlwytho, a sicrhau os ychwanegir rhywbeth o'r newydd, megis addysg ariannol, ei fod yn cael lle teilwng, ac nid yn cael ei wasgu mewn ar ben popeth arall.

   Rydym eisoes yng nghanol cyfnod o newidiadau mawr i'r cwricwlwm (Cam 1 o'r Adolygiad – sef cysoni'r cwricwlwm gyda'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd). Mae angen i unrhyw gamau pellach gael eu cynllunio a'u gweithredu mewn modd mor gydlynol, trefnus ac effeithiol â phosib, gyda'r lefelau priodol o gefnogaeth o ran hyfforddiant ac adnoddau i'r gweithlu addysg. Mi fyddai'n gam gwag go iawn pe byddai'r cynigion hyn yn symud yn eu blaenau, heb gydblethu â'r Adolygiad ehangach.

   Un o agweddau'r Adolygiad yw'r cwestiwn o gydbwysedd rhwng 'cynnwys' a 'sgiliau' yn y cwricwlwm. Petai Cymru'n symud i gyfeiriad lleihau'r cynnwys a chynyddu'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau, mi fyddai modd lleoli addysg ariannol o fewn fframwaith sgiliau ehangach statudol - a hynny o dan bron bob un o'r penawdau arfaethedig: Meddwl yn feirniadol a datrys problemau; Cynllunio a threfnu; Creadigrwydd ac arloesi; Effeithiolrwydd personol; a Llythrennedd digidol. Mae hyn yn ddadl bellach dros sicrhau bod y cynigion hyn yn cael eu hystyried o fewn fframwaith yr Adolygiad.

2. **I ba raddau y dylid rhoi mwy o sylw i addysg ariannol mewn ysgolion er mwyn paratoi pobl ifanc yn well at yr her o wneud penderfyniadau ariannol ar ôl gadael yr ysgol?**

3. **Ym mha ffyrdd, ac i ba raddau, y mae materion ariannol yn berthnasol i'r hyn y dylai pobl ifanc fod yn ei ddysgu yn yr ysgol?**

   Cytunwn yn gryf â'r cynnig i roi pwyslais cryfach, mwy penodol a chyson ar addysg ariannol, er mwyn rhoi'r sgiliau i bobl ifanc i amddiffyn eu hunain rhag twyll, camarwain ac ecsploetio, a'r sgiliau i allu cynllunio a chyllido'n gyfrifol dros eu hunain a'u teuluoedd.

   Byddai rhoi addysg ariannol yn rhoi sgil gydol oes eithriadol o werthfawr i ddysgwyr ledled Cymru.

4. **Os daw addysg ariannol yn rhan statudol o'r cwricwlwm, a ddylid rhoi hyblygrwydd i ysgolion wrth iddynt ddilyn canllawiau ar sut i ddarparu'r addysg honno? (Byddai hyn yn debyg i'r modd y mae ABCh ac addysg gysylltiedig â gwaith yn cael eu haddysgu, ond yn wahanol i bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol.)**

   Byddai hyblygrwydd o'r fath yn fanteisiol i ysgolion. Ond ar yr un pryd, byddai canllawiau yn werthfawr iawn, yn ogystal â deunyddiau enghreifftiol o safon uchel, a syniadau ar gyfer sut i ymblethu addysg ariannol i wahanol rannau o'r cwricwlwm.

5. **Beth yw eich barn am roi dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau addysg lleol i ddarparu addysg ariannol yn ystod addysg orfodol o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen?**

   Cytuno.

6. **Beth yw eich barn am osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod addysg ariannol yn cael ei darparu ar sail drawsgwricwlaidd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a'i gwneud yn ofynnol iddynt ystyried hyn fel rhan o unrhyw adolygiadau o'r cwricwlwm?**

   Cytuno. Mae gwahanol agweddau o addysg ariannol yn bendant yn addas ar gyfer gwahanol bynciau ar draws y cwricwlwm e.e. agweddau mwy mathemategol (e.e. cyfraddau llog, llog cyfansawdd), agweddau mwy ieithyddol (e.e. darllen print mân; dadansoddi ieithwedd a thechnegau hysbysebion) ac ati.

7. **Beth yw eich barn am ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori'n ffurfiol â rhanddeiliaid ac arbenigwyr perthnasol wrth ddatblygu cynnwys y cwricwlwm addysg ariannol?**

8. **Gyda pha bobl a sefydliadau y dylid ymgynghori?**

   Cytuno. Byddai'n ddoeth ymgynghori ag arbenigwyr perthnasol ar yr ochr ariannol, yn ogystal ag arbenigwyr addysgol.

9. **Beth yw eich barn am roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu cynnydd addysg ariannol mewn ysgolion, ac i lunio adroddiad blynyddol ar hyn?**

10. **Beth yw'ch barn am sut y dylai'r ddyletswydd hon gael ei chyflawni? Er enghraifft, a ddylai hyn fod yn rhan o waith Estyn wrth arolygu ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yng Nghymru?**

    Mae UCAC o'r farn y byddai'n fwy priodol i Estyn adolygu cynnydd yn y maes hwn. Os caiff ei gyflwyno yn yr un modd ag ABCh, awgrymwn y dylid ei drin yn yr un modd o ran trefniadau arolygu. Yn y blynyddoedd cynnar, neu ôl rhyw gyfnod penodol, yn sicr mi allai fod yn fanteisiol i Lywodraeth Cymru gomisiynu adroddiad thematig penodol gan Estyn drwy'r Llythyr Cylch Gorchwyl blynyddol.

11. **Pa mor briodol neu angenrheidiol fyddai ei gwneud hi'n ofynnol i brifysgolion a chorfforaethau addysg bellach ddarparu gwybodaeth i fyfyrwyr ynghylch ble i gael cyngor am reoli arian?**

12. **A fyddai unrhyw oblygiadau o ran statws (dosbarthiad) sefydliadau addysg uwch a phellach o gyflwyno gofyniad o'r fath?**

    Cytunwn yn llwyr â bwriad y cynnig. Fodd bynnag, mae gennym amheuon cryf iawn ynghylch a fydd hyn yn bosib yn sgil pasio'r Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch. Mae'r Ddeddf honno'n ildio rheolaeth Llywodraeth Cymru dros y sector Addysg Bellach i raddau helaeth iawn; gwrthwynebodd UCAC y Ddeddf am yr union reswm hwnnw. Mater i'r cyfreithwyr i'w benderfynu fydd hyn yn y diwedd.



**UCAC**
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.athrawon.com